Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog
Llanarmon Dyffryn Ceiriog
Llangollen
Wrecsam
LL20 7LB

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 25/11/2014**

## Cyd-destun

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ym mhentref Llanarmon Dyffryn Ceiriog sydd ym mhen uchaf y dyffryn ac o dan ofal awdurdod lleol Wrecsam. Mae 23 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 4 o blant meithrin rhan-amser. Maent wedi'u trefnu'n ddau ddosbarth oed cymysg.

Mae oddeutu chwarter y disgyblion o gartrefi lle y siaredir Cymraeg fel iaith gyntaf. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae ychydig o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac nid oes yr un â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig. Ychydig o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio ysgol am ddim.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog yn 2013-2014 yw £7,403. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Wrecsam yw £9,653 a'r lleiafswm yw £2,876. Mae Ysgol Llanarmon Dyffryn Ceiriog yn yr 2ail safle o'r 60 ysgol gynradd yn Wrecsam o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Ers Medi 2012, mae'r ysgol, ynghyd â dwy ysgol arall, wedi bod yn rhan o Ffederasiwn Dyffryn Ceiriog o dan arweiniad un pennaeth.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn ystod Tachwedd 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda;
- disgyblion o'r holl ystod oedran a gallu yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- dealltwriaeth gadarn gan ddisgyblion o sut i gadw'n iach;
- disgyblion yn weithgar a brwdfrydig ac yn cydweithio'n gytûn;
- gan ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol ac maent yn ymddwyn yn gyfrifol;
- addysgu da yn sicrhau ymroddiad pob unigolyn i'w dysgu;
- profiadau dysgu yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion; a bod
- amgylchedd diogel ac ethos cyfeillgar yr ysgol yn sicrhau iechyd a lles pob disgybl.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth glir y pennaeth yn seiliedig ar alluogi disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial;
- yr ysgol yn adnabod ei chryfderau a'r meysydd mae angen iddi eu gwella yn drylwyr;
- hunanarfarnu wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth;
- gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth addas am berfformiad yr ysgoll;
- ystod o bartneriaethau yn hyrwyddo dysgu a lles y disgyblion yn effeithiol;
- yr ysgol yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu; a bod
- yr ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Darparu tasgau llythrennedd mwy heriol ar gyfer y disgyblion mwy galluog yn y Cyfnod Sylfaen

A2 Sicrhau rôl mwy gweithredol i’r corff llywodraethol yn y weithdrefn hunanarfarnu

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O ystyried eu man cychwyn, mae disgyblion o'r holl ystod oedran a gallu yn gwneud cynnydd yn eu dysgu. Maent yn ymdrechu'n ddiwyd mewn gwersi, yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn gyflym, ac yn ei gymhwyso yn llwyddiannus mewn sefyllfaoedd newydd.

Mae medrau llythrennedd disgyblion o bob oedran yn dda. Wrth gyflwyno gwybodaeth, mynegi barn neu gyfrannu i weithgareddau chwarae rôl, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando ar gyfraniadau disgyblion eraill â sylw cynyddol ac yn mynegi eu hunain yn ddealladwy yn Gymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae pob un yn cyfrannu i drafodaethau grŵp yn hyderus. Maent yn darllen ystod ehangach o destunau addas yn eu mamiaith ac yn defnyddio gwahanol dechnegau ar gyfer ymgodymu â geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr, maent yn defnyddio priflythrennau ac atalnod llawn â chywirdeb addas, gyda'r hynaf yn trefnu darn o waith ysgrifennu byr yn briodol.

Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau a chyfraniadau disgyblion eraill ac yn cyfrannu'n bwrpasol i drafodaethau grŵp.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o wahanol strategaethau ar gyfer deall ystyr geiriau ac yn ymdopi'n hyderus â geiriau anghyfarwydd. Mae bron pob un yn mwynhau darllen ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau megis ffuglen a llyfrau gwybodaeth. Erbyn rhan uchaf cyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau, megis llyfrau, pamffledi a gwefannau, yn effeithiol ar gyfer cywain gwybodaeth. Trwy'r cyfnod allweddol, mae llawer o'r disgyblion yn fedrus iawn wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd o lyfrau cyfeirio Saesneg i gefnogi eu gwaith yn y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gynhyrchu gwahanol fathau o ddarnau ysgrifenedig megis storïau a phortreadau o gymeriadau chwedleuon Groegaidd. Maent yn defnyddio nifer o dechnegau, er enghraifft map meddwl, wrth gynllunio gwaith ysgrifennu ac yn defnyddio'r ystod lawn o atalnodi. Erbyn rhan uchaf cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu diddorol ar draws y cwricwlwm.

Nodwedd gref o'r ysgol yw'r cynnydd arwyddocaol a wna dysgwyr y Gymraeg yn eu gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau rhif a mesur gyda chywirdeb cynyddol, yn arbennig wrth ymwneud â thasgau ymarferol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan bron pob un afael gadarn ar brosesau adio a thynnu, maent yn trin a thrafod arian yn gywir ac yn defnyddio mesurau safonol hyd a màs yn bwrpasol.

Mae gallu disgyblion cyfnod allweddol 2 i ddefnyddio ffeithiau rhif ac i wneud cyfrifiadau yn y pen, yn dda. Ar frig yr ysgol, mae bron pob disgybl yn ymdrin â rhifau pum digid a chanrannau'n hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau ar gyfer gwirio eu hatebion. Wrth ddatrys problem arian sy'n codi o fywyd pob dydd, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymresymu'n rhifyddol ac yn defnyddio eu medrau rhif yn effeithiol iawn mewn pynciau eraill. Mae'r rhan fwyaf yn fedrus wrth adnabod patrymau a thueddiadau mewn data ac yn defnyddio ystod o graffiau ar gyfer cyflwyno gwybodaeth briodol mewn pynciau eraill.

Dros y blynyddoedd diwethaf, ychydig bach o ddisgyblion oedd yn y grwpiau blwyddyn i'w hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. O ganlyniad, nid yw'r wybodaeth a gesglir o'r data yn ddigon dibynadwy i fedru adrodd yn deg arni.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y byddai staff yn delio'n effeithiol ag unrhyw fygythiadau i'w iechyd a'u lles. Mae gan ddisgyblion o bob oedran ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach ac maent yn gwerthfawrogi bod bwydydd iach ac ymarfer corfforol rheolaidd yn cael effaith lesol ar eu hiechyd a'u datblygiad.

Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd pob disgybl yn dda. Wrth iddynt gydweithio ar dasgau neu symud o gwmpas yr ysgol, mae pob un yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd a thuag at ymwelwyr. Maent yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n cydweithio'n gytûn ac yn cadw ar dasg yn dda dros gyfnodau estynedig. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ohonynt syniad clir o'u cryfderau a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

O oedran cynnar, mae llawer o'r disgyblion yn hyderus wrth wneud dewisiadau ynghylch eu dysgu. Maent yn mynd i'r afael â thasgau datrys problemau yn fedrus. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion cyfnod allweddol 2 cydweithio â phartner er mwyn cynllunio parti.

Mae gan ddisgyblion ymglymiad cryf i'r ysgol a'r staff, ac wrth iddynt aeddfedu, maent yn fodlon ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol yn effeithiol. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad â dwy ysgol arall y Ffederasiwn, trafododd grŵp o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 eu canfyddiadau gyda disgyblion eu hysgol hwy mewn modd aeddfed. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r grŵp eco yn cyflawni eu gwaith yn gydwybodol ac yn llais dylanwadol ym mywyd yr ysgol. Yn ogystal, mae disgyblion o bob oedran yn cyfrannu'n dda i gynnwys cwricwlwm yr ysgol.

Mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae'r cyfraddau presenoldeb yn gyson uchel, ac wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r arfer o gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau yn y pentref yn cryfhau ymglymiad disgyblion i'w cymuned leol yn sylweddol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o brofiadau dysgu symbylus sydd, gan mwyaf, yn bodloni anghenion yr ystod lawn o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i seilio'n gadarn ar y chwe maes dysgu ac ar roi rôl weithredol i ddisgyblion yn eu dysgu. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 2 wedi ei gynllunio yn drylwyr ac yn systematig ac yn sicrhau bod dilyniant a pharhad yn eu dysgu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn caffael medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. Mae gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol wedi'u hymgorffori'n gadarn yng nghynlluniau tymhorol ac wythnosol y ddau ddosbarth.

Mae ymweliadau, siaradwyr gwadd a chyfleoedd i gyfrannu at weithgareddau'r gymuned leol, megis eisteddfodau, yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol. Enghraifft arbennig o hyn oedd ymweliad y disgyblion â siambr y maer yn Wrecsam oedd yn gymorth iddynt ddeall sut mae'r cyngor yn ymateb i ofynion y gymuned.

Mae'r Gymraeg yn weladwy iawn yn amgylchedd yr ysgol ac mae pwyslais cryf yn y cwricwlwm ar hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, amgylcheddol a hanesyddol Cymru. Mae'r elfen hon yn cael ei hatgyfnerthu drwy astudio chwedlau Cymreig, megis Gelert, a chymryd rhan yn eisteddfodau'r ysgol a'r Urdd.

Mae'r ystod eang o brofiadau ychwanegol, sy'n cynnwys ymweliadau addysgol ag amgueddfeydd, ynghyd â'r cyfleoedd i ymuno â gweithgareddau'r gymuned, yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn sylweddol. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol i helpu disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang. Er enghraifft, bu'r ysgol yn cydweithio gyda gwledydd Ewropeaidd eraill i greu cardiau Nadolig, a thrwy brosiect 'Cwpan Y Byd,' bu'r disgyblion yn dysgu mwy am rai o'r gwledydd bychain a gymerodd ran yn y gystadleuaeth.

## Addysgu: Da

Mae'r berthynas waith glòs sydd rhwng oedolion a disgyblion yn arwain at addysgu a dysgu effeithiol. Mae'r athrawon yn hyddysg yn eu gwaith ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn effeithiol i gynllunio profiadau dysgu ysgogol sydd ag amcanion dysgu clir. Caiff disgyblion o bob oedran a gallu eu herio i gyflawni'n dda a thrwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus staff, eu hannog i ymdrechu'n galed a chymryd rhan weithredol mewn gwersi.

Trwy ddefnyddio ystod eang o ddulliau addysgu, llwydda'r athrawon yn dda i sicrhau ymglymiad pob unigolyn i'w dysgu. Caiff athrawon a disgyblion gefnogaeth gref gan gymorthyddion dysgu sy'n cyfrannu'n arwyddocaol i ddysgu ac addysgu. Mae'r pwyslais cryf a roddir ar ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau yn cyfrannu'n

gryf tuag at hyrwyddo medrau dysgu disgyblion. Er hynny, mae ychydig o'r gweithgareddau llythrennedd a gaiff eu cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen yn brin o her ar gyfer ymestyn medrau'r disgyblion mwy abl.

Mae trefniadau asesu a chofnodi'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn galluogi athrawon i fonitro ac olrhain cynnydd pob disgybl yn rheolaidd. Mae gwaith disgyblion, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2, yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mae'r adborth llafar ynghyd â'r sylwadau ysgrifenedig, yn rhoi arweiniad clir iddynt ynghylch yr hyn y maent wedi'i gyflawni a beth mae angen iddynt ei wneud nesaf i wella. Mae'r arfer o bennu targedau unigol ar gyfer disgyblion o bob oedran yn arwain at gynnydd mewn dysgu a chymhelliant.

Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am ddatblygiad a chynnydd eu plant. Mae'r cyfle a gaiff disgyblion i lunio eu hadroddiad personol ynghylch eu cyrhaeddiad a'u cynnydd yn cyfrannu'n arwyddocaol at eu datblygiad fel dysgwyr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol lle mae blaenoriaeth uchel i les a diogelwch disgyblion. Mae'r staff yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn ofalgar a chroesawgar a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu'n effeithiol. Mae trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol rheolaidd yn cynnig profiadau gwerthfawr i hybu lles a ffitrwydd yr holl ddisgyblion. Mae gweithdrefnau'r ysgol wedi cyfrannu'n effeithiol iawn at sicrhau canran presenoldeb uchel yn yr ysgol.

Mae datblygiad personol, ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei ymgorffori'n gadarn yn y cwricwlwm a gweithdrefnau dydd-i-ddydd yr ysgol. Mae'r cyfleoedd rheolaidd sydd ar gael i ddisgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac i gydweithio â disgyblion ysgolion eraill yn y Ffederasiwn, yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau cymdeithasol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithrediadau.

Mae'r sesiynau cydaddoli ysgogol yn cyfrannu'n dda tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

Mae'r defnydd effeithiol a wna'r ysgol o arbenigeddau amrediad o asiantaethau, elusennau a gwasanaethau cymorth ac addysgol yr awdurdod lleol, yn ei galluogi i gefnogi lles a dysgu disgyblion yn llwyddiannus.

Mae trefniadau trylwyr ac effeithiol ar gyfer adnabod a chefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'r cydlynydd dynodedig yn rhoi arweiniad clir i athrawon. Enghraifft nodedig o hyn yw'r pecyn addysgol a luniwyd mewn cydweithrediad ag ysgolion eraill y Ffederasiwn, ar gyfer gwella'r ddarpariaeth i ddisgyblion sydd ag anawsterau dysgu penodol. Trwy ymyrraeth gynnar a chynllunio gofalus, mae'r ysgol yn darparu cefnogaeth gref ac amserol i ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol, gan gynnwys disgyblion mwy abl. Mae hyn yn galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd da ac i ymdopi'n llwyddiannus â gofynion y cwricwlwm.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol, ofalgar a hapus sy'n dathlu amrywiaeth ac yn gwerthfawrogi pob dysgwr. Mae'n sicrhau cyfle cyfartal ym mhob gweithgaredd ar gyfer pob disgybl. Mae ganddi amgylchedd dysgu positif sy'n cyfrannu'n effeithiol at gefnogi dysgu ac addysgu.

Mae ystod eang o offer ac adnoddau addas yn yr ystafelloedd dysgu sy'n cael eu defnyddio'n bwrpasol gan athrawon i hyrwyddo a chyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Mae'r adeilad yn bodloni holl ofynion y dysgwyr. Mae amrywiaeth o arddangosfeydd trwy'r ysgol sy'n cyfrannu'n arwyddocaol at yr ethos ac yn ysgogi'r plant. Mae digon o le yn yr ystafelloedd ac mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r buarth o faint addas ac mae gan yr ysgol fynediad i gae chwarae. Mae ardal y tu allan i'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio'n ddychmygus i ddarparu amgylchedd dysgu diddorol a chyffrous.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac mae wedi sefydlu systemau cyfathrebu clir ac ymdeimlad cryf o waith tîm ymysg yr holl staff. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at bennu cyfeiriad strategol ac ysgol hunan-feirniadol sy'n datblygu'n barhaus. Caiff y pennaeth ei chefnogi'n dda gan staff sy'n rhannu'r un weledigaeth a gwerthoedd wrth gefnogi'r ymdrechion i wella safonau ac ansawdd yr addysgu.

Mae'r uwch dîm rheoli yn dadansoddi data perthnasol yn fanwl ac yn defnyddio'r wybodaeth yn effeithiol ar gyfer adnabod cyflawniadau disgyblion unigol ynghyd â grwpiau penodol. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio darpariaeth addas sy'n bodloni anghenion y disgyblion o'r holl ystod gallu yn effeithiol.

Mae parodrwydd yr ysgol i ymgymryd â blaengareddau newydd megis asesu ar gyfer dysgu, ac i roi sylw i ofynion blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn sicrhau ei bod yn datblygu'n barhaus ac yn gwella dysgu ac addysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynyddol o safonau a chyflawniadau disgyblion. Mae ganddynt wybodaeth addas hefyd am flaenoriaethau a pherfformiad yr ysgol ac maent yn arsylwi sesiynau addysgu trwy ymweliadau achlysurol â'r dosbarthiadau. Maent yn barod i herio'r ysgol ynglŷn â safonau a'r dulliau addysgu. Fodd bynnag, er bod y llywodraethwyr yn deall ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn briodol, nid oes ganddynt rôl ddigon gweithredol yn y trefniadau hunanarfarnu er mwyn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt ynglŷn â datblygiadau diweddar yr ysgol. Mae hyn yn effeithio ar eu gallu i herio a chefnogi'r ysgol i ysgogi gwelliannau anghenrheidiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella yn drylwyr. Mae ganddi weithdrefnau hunanarfarnu effeithiol sydd wedi arwain at welliannau gweladwy mewn agweddau megis llawysgrifen ac ysgrifennu estynedig. Mae'r uwch dîm rheoli yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i gyfrannu at y broses hunanarfarnu, gan gynnwys barn y rhieni, staff a disgyblion. Mae athrawon ac aelodau'r corff llywodraethol yn monitro safonau a darpariaeth yn fanwl trwy ddadansoddi data, craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi. Mae'r adroddiadau monitro o ansawdd uchel ac yn cydbwyso'r cryfderau gydag argymhellion ar gyfer gwella yn briodol. O ganlyniad, mae'r monitro gan yr arweinwyr yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun cytbwys a chywir o'r ysgol. Mae cysylltiad amlwg rhwng canfyddiadau'r weithdrefn hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae gan yr athrawon rolau pendant yn creu a gweithredu agweddau penodol ar y cynllun.

Mae'r cynllun gwella yn cynnwys targedau mesuradwy ac yn clustnodi symiau penodol o gyllid i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Mae'r pennaeth yn monitro ac adolygu cynnydd y blaenoriaethau ac yn adrodd arnynt yn effeithiol yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol. Mae hyn yn sicrhau bod gan aelodau'r corff llywodraethol ddealltwriaeth led briodol o'r cynnydd a wneir gan yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at wella safonau a lles disgyblion. Mae'r cydweithio cynhyrchiol gydag ysgolion eraill Ffederasiwn Ysgolion Dyffryn Ceiriog yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau'r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r arfer o gyd-gynllunio ac o rannu arbenigeddau athrawon wedi cyfrannu'n arwyddocaol tuag gryfhau ansawdd addysgu a sicrhau gwell cysondeb a chywirdeb yn asesiadau athrawon.

Mae'r rhieni yn cefnogi'r ysgol yn dda a, thrwy'r gymdeithas rieni ac athrawon gweithgar, yn cyfrannu'n sylweddol tuag at wella adnoddau. Mae effaith hyn i'w gweld yn adnoddau ardal allanol y Cyfnod Sylfaen sy'n cyfrannu'n dda at wella safonau disgyblion yn y maes.

Mae'r cysylltiadau gweithredol â'r gymuned leol yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn sylweddol. Enghraifft arbennig o hyn yw'r prosiect mentergarwch a ddatblygwyd ar y cyd rhwng yr ysgol a gwesty lleol a roddodd gyfleoedd arbennig i ddisgyblion ddatblygu medrau busnes.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau a gwasanaethau cymorth yr awdurdod lleol sy'n galluogi staff i wella deilliannau a lles disgyblion.

Mae trefniadau trosglwyddo i'r ddwy ysgol uwchradd yn gynhwysfawr ac effeithiol ac yn paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff y staff eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae'r rhwydweithio a'r cydweithio agos sy'n bodoli o fewn Ffederasiwn Ysgolion Cynradd Dyffryn Ceiriog yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu'r Ffederasiwn a staff cymorth yn briodol i fynd i'r afael â phob agwedd ar gwricwlwm yr ysgol yn effeithiol.

Mae'r trefniadau ar gyfer cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol ac yn cyfrannu'n dda tuag at gysoni gweithdrefnau asesu a chynllunio manylach ar gyfer gweithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedaethol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw dyledus i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn briodol.

Caiff effaith yr adnoddau ar addysgu a dysgu ei hadolygu'n gyson gan reolwyr a chynllunnir yn briodol ar gyfer anghenion y dyfodol.

Mae rheolwyr yn rheoli cyllid yn effeithiol ac mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ar gyfer gwella deilliannau a lles y disgyblion. Nid yw'r ysgol wedi derbyn unrhyw gyllid i gefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

O ystyried y defnydd darbodus a wneir o'r cyllid, ynghyd â deilliannau da'r disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o’r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o’r blynyddoedd o ddata perfformiad Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 11 | 10<br>91% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 11 | 11<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 11 | 11<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 11 | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 11 | 11<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 11 | 11<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 11 | 9<br>82% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 11 | 7 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 64% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 11 | 0 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 10 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 11 | 9 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 11 | 7 | 3 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 64% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 10 | 7 | 0 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 70% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 11 | 8 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| William Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Alan Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Olwen Corben | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy’r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i’r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â’r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i’r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni’r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.